

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 4: Adran 54

## Dyletswydd i baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 4 yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch y ddyletswydd dan adran 54. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd hon, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

### Dolenni allweddol:

#### Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015

[http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1335/pdfs/wsi\\_20151335\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1335/pdfs/wsi_20151335_mi.pdf)

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

#### Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part4cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan Ran 11 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

### Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **Adran 54** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi ac adolygu cynllun gofal a chymorth ar gyfer oedolyn neu blentyn, ac i baratoi cynllun cymorth ar gyfer gofalwr, pan fo asesiad wedi canfod bod ganddo anghenion cymwys.

Os yw amgylchiadau person wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar y cynllun, mae'n rhaid iddo gynnal adolygiad a pha bynnag asesiadau y mae'n eu hystyried yn briodol. Mae'n rhaid diwygio'r cynllun yng ngoleuni'r asesiadau hynny.

Mae'n **rhaid** i awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw berson sy'n gyfrifol am baratoi, adolygu neu ddiwygio cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth yn achos gofalwr, yn meddu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd i wneud hynny, a'i fod wedi cael hyfforddiant priodol.

### Beth mae'n ei wneud?

Mae'n **rhaid** i gynlluniau gofal a chymorth, neu gynlluniau cymorth yn achos gofalwr, gael eu datblygu mewn partneriaeth gyda'r unigolyn.

Bydd cynlluniau gofal yn gymesur ag anghenion yr unigolyn.

Gall cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth, gael ei reoli gan yr unigolyn ei hun trwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

Mae'n rhaid i gynlluniau gofal a chymorth gynnwys y canlynol:

- Y canlyniadau a adnabuwyd
- Y camau gweithredu i'w cymryd gan yr awdurdod lleol a phersonau eraill
- Yr anghenion a fydd yn cael eu diwallu trwy ddarparu gofal a chymorth
- Sut y bydd cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny'n cael ei fonitro a'i fesur
- Dyddiad yr adolygiad nesaf o'r cynllun gofal

Lle y bo'n briodol, dylai cynlluniau gofal a chymorth nodi hefyd:

- Rolau a chyfrifoldebau'r unigolyn, gofalwyr ac aelodau o'r teulu, ac ymarferwyr.
- Yr adnoddau (gan gynnwys adnoddau ariannol) y mae eu hangen gan bob parti
- Yr anghenion a fydd yn cael eu diwallu â thaliadau uniongyrchol
- Swm ac amllder y taliadau uniongyrchol

Lle mae ymholiadau wedi cael eu gwneud gan yr awdurdod lleol yn unol â'i ddyletswydd dan adran 126 (2) o'r Ddeddf (oedolion sy'n wynebu risg), neu adran 47 o Ddeddf Plant 1989, mae'n rhaid i'r cynllun gofal a chymorth ar gyfer yr unigolyn sy'n destun yr ymholiadau hynny gynnwys cofnod o gasgliad yr ymholiadau. Dylai'r casgliad gynnwys pa un a yw'r person yn wynebu risg ai peidio a pha gamau gweithredu a ddylai gael eu cymryd a chan bwy. Gall y cynllun gofal a chymorth ymgorffori unrhyw gynllun amddiffyn sydd wedi'i sefydlu hefyd.

## Adolygiadau

Mae'n rhaid i gynlluniau gofal a chymorth nodi'n eglur erbyn pryd y bydd y cynllun yn cael ei adolygu, a'r dyddiad hwnnw wedi'i gytuno gyda'r unigolyn a/neu'r teulu, ond:

- yn achos plentyn rhaid i'r dyddiad beidio â bod yn hwyrach na 6 mis
- yn achos oedolyn rhaid i'r dyddiad beidio â bod yn hwyrach na 12 mis.

Mae'n rhaid bod gan awdurdodau lleol, gyda'u partneriaid, drefniadau i adolygu neu ailasesu'r cynllun yn fwy prydlon pryd bynnag yr ymddengys nad yw'r cynllun presennol yn diwallu anghenion yr unigolyn neu'r teulu. Rhaid i gynllun gofal a chymorth beidio â dod i ben heb adolygiad.

## Cydweddiad â'r Ddeddf

Mae'r cynllun gofal a chymorth, neu'r cynllun cymorth yn achos gofalwr, yn dilyn yr asesiad dan **Ran 3** a'r dyfarniad cymhwysra dan **Ran 4**.

Hyd yn oed os oes gan unigolyn gynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth bydd yn parhau i gael cymorth i gael mynediad at y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy a'r gwasanaethau cymunedol ac ataliol dan **Ran 2**.

Gall awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i berson dalu ffi dan **Ran 5** am ddarparu gofal a chymorth neu drefnu eu bod yn cael eu darparu.

Mae'n rhaid i'r cynllun gofal a chymorth gofnodi canlyniad unrhyw ymholiadau a chamau gweithredu sy'n bodoli dan **Ran 7**.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG weithio'n rhanbarthol i gytuno ar fformat cyffredin ar gyfer y cynllun gofal a chymorth ar draws yr ôl troed

rhanbarthol. Ceir canllawiau pellach ynghylch partneriaeth a chydweithredu dan **Ran 9**.

Mae'n rhaid i ymarferwyr ystyried a fyddai'r person yn cael budd o bresenoldeb eiriolwr wrth baratoi cynllun gofal a chymorth yn unol â chanllawiau yn **Rhan 10**.

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer y rhai sydd mewn sefydliad diogel dan **Ran 11**.

## Beth mae'r newidiadau'n ei olygu yn ymarferol?

Bydd cynllun gofal a chymorth yn dilyn yr asesiad a'r dyfarniad ynghylch cymhwysra i alluogi'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

Bydd y cynllun gofal a chymorth yn gymesur ag anghenion asesedig yr unigolyn ac yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda'r unigolyn.

Mae'n **rhaid** i'r ymarferydd sicrhau bod y cynllun yn cynnwys cadarnhad eglur a chryno o'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt a phwy fydd yn eu cyflawni.

Mae'n **rhaid** i gynlluniau gael eu hadolygu ar ddyddiad y cytunwyd arno i sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol ac yn gyfredol.

## Rhagor o wybodaeth

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:**

[http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdf/s/anaw\\_20140004\\_we.pdf](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdf/s/anaw_20140004_we.pdf)

**Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:**

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=cy>

**Y Fframwaith Mesur Perfformiad:**

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151005co-de-of-practicecy.pdf>

**Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol:**

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140814nofcy.pdf>

**Hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru:**

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>